*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Lee Bourne, Rheolwr Prosiect** |
| Pwnc | **Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad cynnydd i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod a gafodd Bwrdd Prosiect y Ganolfan Hyfforddi ym mis Medi, ac i amlinellu'r prif ddatblygiadau, y risgiau, a'r camau nesaf.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ar y cyfan, mae'r prosiect yn parhau i fod o fewn y cwmpas a'r disgwyliadau ansawdd; fodd bynnag, mae'r ansicrwydd ynghylch yr amserlen a'r gyllideb yn parhau, a hynny yn bennaf oherwydd cyfyngiadau ecolegol a'r angen am y costau terfynol. Disgwylir i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gwblhau a'i gyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i gael ei gadarnhau ym mis Ionawr 2026. Bydd y gwaith o baratoi'r ddaear yn dechrau ym mis Hydref 2025. Mae Bwrdd y Prosiect eisoes wedi cymeradwyo'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ac mae gwefan ymgynghori cyhoeddus yn cael ei pharatoi i'w lansio yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi cynnydd prosiect y Ganolfan Hyfforddi.**

**CEFNDIR**

4 Fe wnaeth y Bwrdd Prosiect gwrdd ar 2 Medi 2025, yn dilyn eu sesiwn flaenorol ar 22 Gorffennaf 2025. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl a'r Strategaeth Gyfathrebu ddiwygiedig. Adolygwyd amserlen y rhaglen gan ystyried adborth gan gontractwyr a chyfyngiadau ecolegol.

**GWYBODAETH**

5 **Cyllideb a Chostau**
Mae dyluniad y Ganolfan Hyfforddi wedi esblygu ers i'r cysyniad gael ei rannu ag Aelodau ym mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gasglwyd trwy ymgysylltu â staff, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod cynllun y safle yn cyd-fynd â blaenoriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd. Bydd y cynllun diwygiedig yn cynnwys gwell mynediad, diweddariadau i'r cyfluniadau hyfforddi, ac ardaloedd ar gyfer defnydd amlasiantaethol. Gwnaed y newidiadau hyn gan ystyried canlyniadau'r gweithdai a gynhaliwyd yn gynharach eleni, a'u bwriad yw diogelu'r cyfleuster i'r dyfodol.

6 Bydd y dyluniadau diwygiedig yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Prosiect. Mae gwaith modelu ariannol manwl yn digwydd ar hyn o bryd i gefnogi'r Achos Busnes Amlinellol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Ionawr 2026.

7 **Ecoleg**
Mae'r gwaith ecolegol yn parhau ar y safle, gan ganolbwyntio ar reoli Madfallod Dŵr Cribog ar hyn o bryd. Mae wedi cael ei gadarnhau bod y Cwtiad Torchog Bach wedi gadael y safle.

8 **Cytundebau Contractwyr**
Mae cytundebau isgontractwyr yn cael eu cwblhau. Mae'r contract paratoi'r ddaear wedi'i ddyfarnu a bydd yn cael ei gyflwyno o dan oruchwyliaeth ecolegol.

9 **Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Mae'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i chymeradwyo. Mae'n cynnwys dull graddol o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, gyda gwefan gyhoeddus bwrpasol wedi'i chynllunio i'w lansio ym mis Ionawr 2026.

10 **Statws Prosiect a Llinell Amser**
Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2029, gyda'r cau a'r trosglwyddo ffurfiol i ddigwydd chwe mis yn ddiweddarach. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflymu er mwyn ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Ionawr 2026. Ychwanegwyd oediadau i'r Achos Busnes Amlinellol at y gofrestr risg, a hynny oherwydd eu heffaith bosibl ar gyllid ac ar benderfyniadau.

11 **Gwerth Cymdeithasol**
Mae targedau gwerth cymdeithasol wedi'u hymgorffori mewn cytundebau contractwyr, gyda sylw penodol yn cael ei roi ar ymgysylltu lleol a chanlyniadau mesuradwy. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadrodd i'r Bwrdd Prosiect.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect yn cefnogi amcanion sefydliadol ar gyfer gwella, llesiant a diogelwch cymunedol, yn unol â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol 2025–29. Mae gwerth cymdeithasol, ymgysylltu lleol, a chyfathrebu dwyieithog wedi'u hymgorffori yng nghyflawniad y prosiect. |
| Cyllideb | Mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyo’r achos busnes. Mae opsiynau cost yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf bwrdd y prosiect. |
| Cyfreithiol | Mae ystyriaethau cyfreithiol yn parhau i gael eu monitro ar draws pob cam o'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â rheoliadau cynllunio, safonau diogelwch adeiladu, a deddfwriaeth amgylcheddol. Mae tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda chynghorwyr cyfreithiol a chontractwyr i sicrhau bod yr holl rwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol wrth i'r rhaglen fynd rhagddo. |
| Staffio | Mae staff o bob grŵp wedi bod yn cymryd rhan weithredol trwy gydol y broses ddatblygu. Mae eu mewnbwn wedi helpu i siapio’r egwyddorion dylunio ac i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y cynllun, ac maen nhw wedi helpu i sicrhau bod y cyfleuster yn adlewyrchu anghenion gweithredol a chyflwyniad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae rhagor o waith ymgysylltu wedi'i gynllunio wrth i’r prosiect barhau, gyda chefnogaeth ychwanegol mewn golwg i gynnal capasiti cyflenwi. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae’r gwaith ymgysylltu â'r gymuned wedi dechrau. Bydd deunyddiau dwyieithog yn cael eu darparu mewn digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol. |
| Risgiau | Mae tîm y prosiect yn parhau i fonitro ac i reoli risgiau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys y ddibyniaeth ar ariannu cyfalaf allanol, sydd dal heb gael ei ddatrys. Mae trosiant staff a phwysau capasiti hefyd wedi'u nodi fel risgiau posibl i barhad, ac mae camau wedi'u cymryd i gryfhau llywodraethu ac egluro swyddi cyflenwi. Mae goruchwyliaeth ariannol wedi'i wella, gyda deiliad cyllideb pwrpasol wedi’i benodi a dangosfwrdd ariannol wedi’i ddatblygu. Mae strategaeth ystadau ffurfiol yn cael ei datblygu fel rhan o'r datblygiad achos busnes. Mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru'n weithredol i sicrhau y gellir cyflawni’r prosiect o fewn y paramedrau disgwyliedig. |